

Odl (1)

Odl yw pan mae diwedd geiriau yn swnio'n debyg.

Dyma enghreifftiau o enwau pobl sydd yn odli gyda'i gilydd:

Gruffudd, Dafydd, Meredydd, Hedydd...

Sophie, Casii, Harry., Evie...

Wrth gwrs, nid dim ond enwau pobl sydd yn gallu odli gyda'i gilydd.

Dyma enghreifftiau eraill o eiriau sydd yn odli gyda'i gilydd:

Mawr., Cawr., Nawr., Llawr....

Llyfrau, Esgidiau, Dau., Mwynhau...

Tasg

Fel dosbarth, gwnewch restr o enwau pawb ac edrychwch i weld pa enwau (os o gwbl) sydd yn odli gyda'i gilydd.

Odl (2)

Gas gen i wisgo tei!

Aeth y tei ll**wyd**
i mewn i'r _____.

Aeth y tei **coch**
i fwyd y _____.

Aeth y tei gw**yn**
i mewn i'r _____.

Aeth y tei m**elyn**
i'r goeden _____.

Aeth y tei p**inc**
i mewn i'r _____.

Aeth y tei n**efi**
i mewn i'r _____.

Aeth y tei m**wstard**
i mewn i'r _____.

Aeth y tei str**eips**
i lawr y _____.

Aeth y tei sb**otyn**
i mewn i'r _____.

Aeth y tei fio**led**
i lawr y _____.

Aeth y tei gl**as**
hefyd i le _____.

Aeth yr unig dei gl**ân**
i mewn i'r _____.

A dyna ddiwedd y gân.

Myrddin ap Dafydd

Adeiladu delweddau (1)

Het Ansoddeiriau

Diog	Pwysig	Llawen	Blinedig
Cenfigennus	Distaw	Blodeuog	Digalon
Pwdlyd	Lliwgar	Llwyd	Pitw
Boliog	Syn	Cyfrinachol	Gwirion
Ffyrnig	Blewog	Crac/Blin	Gwyllt
Direidus	Gofalus	Ifanc	Swnllyd
Cyflym	Doniol	Enfawr	Diflas
Prysur	Busneslyd	Talentog	

Het Enwau

Eliffant	Babi	Brân	Athro / Athrawes
Bwyd	Parti	Bore	Pry Genwair / Mwydyn
Awyr	Coeden	Môr	Taid / Tad-cu
Cangarŵ	Gwely	Stryd	Nain / Mam-gu

Adeiladu delweddau (2)

Tasg

Pigwch 1 gair o'r Het Enwau a 2 air o'r Het Ansoddeiriau. Rhwch y geiriau wnaethoch chi eu pigo gyda'i gilydd ac adeiladwch ar y ddelwedd.

Er enghraifft:

Stryd

(Enw)

lawen

(Ansoddair)

sy'n garnifal o liwiau

(Adeiladu ar y ddelwedd)

Stryd

gyfrinachol

gyda phob drws ar gau

Eich tro chi:

_____.

_____.

Cymariaethau (1)

Cymhariaeth yw dweud fod rhywbeth fel rhywbeth arall.

Dyma enghreifftiau:

Hapus fel hipo mewn bath.

Trist fel lan y môr ganol gaeaf.

Blinedig fel Siôn Corn y diwrnod ar ôl y Nadolig.

Caled fel llyn wedi rhewi yn gorn.

Dwl/Gwirion fel jiraff yn dawnsio disgo.

Cymariaethau (2)

Tasg

Ysgrifennwch eich cymariaethau eich hun. Ceisiwch fod mor wreiddiol ag sy'n bosib - peidiwch ysgrifennu pethau amlwg efallai eich bod wedi clywed o'r blaen.

Swnllyd fel _____

Egniol fel _____

Dychrynlyd fel _____

Lliwgar fel _____

Drewllyd fel _____

Blasus fel _____

Ych a fi fel _____

Caredig fel _____

Doniol fel _____

_____ **fel** _____

_____ **fel** _____

Rhestr Siopa Bwystfil

Pe mentrwch ddarllen rhestr siopa bwystfil ar ei hyd,
fe welwch chi restr fwyaf dychrynlyd y byd.

Chwys o gesail athro, Snot wedi ffrio,
Bananas du drewllyd, Plant bach swnllyd,
Pw-pw babŵn, Dannedd racŵn,
Llygaid llysnafeddog, Bodiau traed blewog.

Fflwff botwm bol, Malwoden anferthol,
Llefrith wedi suro, Ffa pob wedi llwydo,
Ewinedd gwrach, Cath mewn sach,
Poer poeth draig, Clustiau hen wraig.

Rhestr go fer yw'r rhestr hon a dweud y gwir.
Efallai y gallwch chi feddwl am fwy a'i gwneud yn rhestr hir?

Anni Llŷn

Cerdd Restr (1)

Tasg

Ychwanegwch o leiaf 10 peth yr ydych yn cysylltu â'r gair Dathlu, a 10 peth yr ydych yn cysylltu â'r gair Dwl / Gwirion i'r rhestrau isod.

Dathlu	Dwl / Gwirion
Parti	Cangarŵ
Caneuon	Pandas
Dillad lliwgar	Clown
Bwyd blasus	Dillad sydd yn ffrwydro
Teisennau	

Cerdd Restr (2)

Tasg

Defnyddiwch eich rhestrau Dathlu a Dwl / Gwirion i orffen y gerdd isod. Ceisiwch ychwanegu un neu ddwy bennill arall.

Ar y diwrnod dathlu dwl...

Bydd panda'n chwarae piano
ac esgidiau'n yfed te.

Bydd teisennau'n gwisgo hetiau
ac yn canu dros y lle!

Parti'r Bardd Plant

Mae'n amser trefnu **parti**!

Cawn sosej rôls a _____.

Mae bardd y plant bach gora' **'rioed**
yn ugain _____ **eleni**.

Cawn gwmni'r bwystfil **boliog**

sy'n bwyta pigau _____,

bisgedi hir sy'n binc fel **moch**

a theisen _____ fel **llwynog**.

Bydd yno lwyth o **gemmau**!

Cawn chwarae gyda _____,

A bwyta tybiau hufen _____

fel beirdd bach **da** llawn odlau.

Dewch _____, _____ a _____,

a _____, _____ a _____,

a'ch ffrindiau i gyd, bydd croeso **mawr**,

Dewch, brysiwch _____ i'r **parti**!